

Newyddlen – Mawrth 2020

Croeso i newyddlen ddiweddaraf Morlais – gan ddod a'r diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Rydym yn wynebu cyfnod heriol ac ansicr ym mhob rhan o'n bywydau – ac mae gan bawb gyfrifoldeb i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i leihau pwysau ar ein gwasanaethau iechyd a gofal. Nid yw Morlais yn ddim gwahanol – mae'r fîm i gyd bellach yn gweithio o gartref, ac mae rhai ohonom yn canolbwyntio ein hymdrechion i helpu cydweithwyr Menter Môn gyda'u gwaith o gefnogi banciau bwyd Môn sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar gyflenwadau bwyd yn ystod yr argyfwng.

Dim ond ychydig wythnosau yn ôl roedd pryderon ynglŷn â hinsawdd ar frig yr agenda a llywodraethau yn ymrwymo i newid y ffordd y mae ynni'n cael ei ddefnyddio. Mae'r pryderon hyn yn dal i fodoli ond mae'r sylw mae datgarboneiddio yn ei gael wedi gostwng yn sylweddol – a hynny yn gwbl ddealladwy. Ar ôl i'r pandemig ddod i ben bydd y galw am ynni yn parhau, a bydd angen i ni gynyddu ein defnydd o ynni adnewyddadwy. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd gan Morlais ran allweddol i'w chwarae wrth ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch gyda'r fîm ar info@morlaisenergy.com neu 01248 725 713.

Pwy ydym ni? Mae Menter Môn yn fenter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar sicrhau budd i gymunedau lleol.

Beth ydym yn ei wneud? Rhoi'r isadeiledd angenrheidiol yn ei le er mwyn galluogi datblygu technoleg ynni llif llanw i gynhyrchu trydan

Ble rydym yn gwneud hyn? Mae ardal y prosiect oddi ar arfordir gorllewin Ynys Cybi mewn parth sydd wedi ei ddynodi gan Ystâd y Goron ar gyfer datblygu technoleg ynni morol.

Pam rydym yn gwneud hyn? Rydym yn credu bod gan ynni llanw rôl i chwarae fel ffynhonnell di-garbon i gwrdd ag anghenion trydan y dyfodol.

Môr o gyfleodd – digwyddiad cadwyn cyflenwi

Fe drefnodd Morlais ddigwyddiad "Môr o Gyfleodd" ar y cyd gyda'i chwaer brosiect 'Selkie' yn ddiweddar. Y nod oedd cyflwyno darpar gyflenwyr a chontractwyr i'r prosiect a thynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i gwmnïau sydd am wneud yn fawr o



gyfleoedd gyda Morlais a phrosiectau ynni llanw eraill. Roedd tua 100 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad yn M-SParc, Gaerwen yn gynrychiolwyr o fusnesau o bob cwr o ogledd Cymru, yn ogystal ag arbenigwyr y sector a datblygwyr o'r DU a thramor.

Un o'r siaradwyr oedd Gareth Williams o gwmni FAUN Trackway ar Ynys Môn sydd eisoes yn gweithio gyda'r sector. Dywedodd: "Rydym wedi ein contractio gan Orbital i gynhyrchu angorau ar gyfer eu dyfeisiadau llif llanw. Maen nhw yn un o'r cwmnïau sydd wedi ymrwmo i brosiect Morlais – felly mae'n wych i ni fod yn ymwneud â'r gwaith yma o'r cychwyn cyntaf. Mae'n dda i ni fel cwmni, ac yn ein rhoi ni mewn lle cryf i ddatblygu i'r dyfodol."

Bydd yr holl gyfleoedd gyda Morlais yn cael eu cyhoeddi ar wefan y prosiect sef morlaisenergy.com ac rydym yn annog darpar gyflenwyr a chontractwyr i gofrestru i dderbyn diweddariadau.

Datblygwyr technoleg rhyngwladol yn arwyddo cytundeb gyda Morlais

Mae tri datblygwr tyrbîn wedi arwyddo fel partneriaid ar gyfer y prosiect yn ddiweddar. Mae'r cytundebau yn dilyn misoedd o drafodaethau gyda dau gwmni o Ffrainc, Sabella a HydroQuest yn ogystal â chwmni o Sbaen, sef Magallanes. Bwriad y tri chwmni yw gosod a gweithredu eu dyfeisiadau ym mharth Morlais.

Sabella – Cwmni cynllunio a datblygu technoleg llanw o Lydaw yw Sabella. Eu dyfais, sef y tyrbîn D10-1000 oedd y cyntaf o'i fath i gael ei gysylltu i'r grid yn Ffrainc. Gyda thechnoleg wedi ei brofi allan yn y môr ers 2015 mae Sabella yn edrych i ymestyn a thargedu safleoedd ar raddfa fwy fel Morlais.

HydroQuest – Mae HydroQuest hefyd wedi eu lleoli yn Ffrainc, ac wedi bod yn datblygu technoleg hydro ers 2001. Mae'r cwmni o Grenoble yn datblygu tyrbînau ar gyfer afonydd a'r môr ac yn bwriadu gosod eu tyrbîn llanw 1MW ym mharth Morlais. Maen nhw wedi gosod dyfeisiadau yn llwyddiannus mewn afonydd ar draws Ffrainc gan gynnwys yn yr afon Rhône.

Magallanes Renovables – Lanswyd Magallanes yn 2009, yn Galisia, Sbaen. Mae'r cwmni wedi datblygu technoleg sy'n gallu defnyddio ynni'r llanw mewn ffordd cost effeithiol ac sy'n hawdd ei gynnal a chadw. Yn dilyn cyfnod o ymchwil a phrofi yn y Ganolfan Profi Ynni Morol Ewropeaidd yn ynysoedd Orkney, mae Magallanes bellach yn edrych am gyfle i ddatblygu ymhellach ar raddfa fwy gyda Morlais.

Mae'r cytundebau newydd hyn yn dangos hyder go iawn yn Morlais ac mae'r tîm yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Sabella, HydroQuest a Magallanes. Mae'r cwmnïau yn uchel eu parch a byddent yn dod a phrofiad sylweddol gyda nhw pan fyddwn yn symud i ail ran Morlais yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd.

Diweddariad – proses ganiatâd

Rydym wedi derbyn cyngor gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru na fydd newid i'r broses caniatâd oherwydd pandemig coronafeirws. Yn dilyn derbyn cais gan Llywodraeth Cymru fe gyflwynodd tîm Morlais wybodaeth ychwanegol iddynt ar y 27ain o Fawrth. Mae'r un wybodaeth wedi cael ei rannu gyda'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi cofrestru neu wedi cyflwyno gwrthwynebiad yn flaenorol. Mae hyn wedi cael effaith ar y dyddiadau roedd disgwyl i benderfyniad gael ei gyhoeddi – rydym bellach yn disgwyl ymchwiliad cyhoeddus yn yr hydref eleni a phenderfyniad terfynol yn ystod yr haf 2021.

Digwyddiadau

Er bod yr holl ddigwyddiadau roedd Morlais wedi cynllunio i fynychu wedi eu gohirio neu ganslo – cawsom gyfle i fynychu sawl ffair yrfaeodd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Gan gynnwys:

- Ffair Yrfaeodd Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Prifysgol Bangor
- Ffair Yrfaeodd Gyrfa Cymru